# Arolygiad o dan Adran 28
# Deddf Addysg 2005

**Adroddiad ar ansawdd addysg yn**

**Ysgol Penybryn**
**Ffordd Cadfan,**
**Tywyn,**
**Gwynedd,**
**LL36 9EF**

**Rhif yr ysgol: 6612212**

**Dyddiad yr arolygiad: 04/05/10**

**gan**

**William Edward Williams**
**67644**

**Dyddiad cyhoeddi: 07/07/10**

**O dan rif contract Estyn: 1121109**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

89 Hyrwyddir a chyfoethogir profiadau'r dysgwyr yn dda gan amrediad eang ac amrywiol o weithgareddau allgyrsiol, diwylliannol a chymunedol. Trefnir teithiau addysgol amrywiol sy'n cyfrannu'n sylweddol at brofiadau a datblygiad y dysgwyr.

90 Mae profiadau dysgu rhagorol yn hyrwyddo datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol y dysgwyr. Mae cynllun gweithredol ar gyfer datblygu addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) sy'n cael ei integreiddio i holl waith yr ysgol. Gwneir defnydd effeithiol o ymwelwyr er mwyn hyrwyddo gwerthoedd.

91 Hyrwyddir datblygiad ysbrydol dysgwyr yn dda. Mae'r sesiynau addoli ar y cyd o safon uchel ac yn cynnig cyfleoedd arbennig o dda i ddysgwyr fyfyrio'n dawel a meddylgar ar faterion pwysig sy'n effeithio ar eu bywydau.

## Addysg grefyddol

**Cyfnod allweddol 1: Gradd 1 – Da gyda nodweddion rhagorol**
**Cyfnod allweddol 2: Gradd 2 – Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

### Nodweddion rhagorol

186 Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 1 wybodaeth a dealltwriaeth ragorol o storïau, geirfa ac arferion Cristnogol gan wahaniaethu'n hyderus rhwng cymeriadau a digwyddiadau'r Hen Destament a'r Testament newydd. Meddant ar ysbryd ymchwilgar a chwilfrydig ac maent yn trafod crefyddau ac arteffactau'n frwdfrydig a byrlymus gan fynegi barn synhwyrol. Mae'r rhain yn nodweddion rhagorol.

187 Mae'r modd hyderus mae disgyblion Blwyddyn 2 yn trafod Mari Jones, ei dyhead am Feibl a manylion ei thaith i Bala, yn nodwedd ragorol.

### Nodweddion da

188 Dengys blant y cyfnod sylfaen ymwybyddiaeth gynyddol o bobl arbennig a mannau addoli. Ymatebant yn gadarnhaol i straeon o'r Beibl a mwynhânt chwarae rôl wrth ail-fyw rhai o'u hoff straeon.

189 Mae mwyafrif disgyblion cyfnod allweddol 1 yn trafod egwyddorion megis cyfeillgarwch, pwysigrwydd teulu a beth sy'n gwneud ffrindiau da yn feddylgar. Maent yn ymwybodol o arwyddocâd bedydd i'r Cristion ac yn trafod defod bedydd a rhan y bedyddfaen yn wybodus. Mae'r holl ddisgyblion wedi ymweld ag eglwysi ac addoldai a thrafodant yn hyderus eu nodweddion a'u pwrpas.

190 Mae mwyafrif disgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu'n dda eu dealltwriaeth o gysyniadau megis yr hunan, teimladau, maddeuant a chyfeillgarwch. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd gweddïo gan ganolbwyntio ar ddysgeidiaeth Crist ar weddi.

191 rwy eu hymdrechion i gasglu arian, cefnogi elusennau a phlentyn yn Affrica, daw disgyblion y ddau gyfnod allweddol yn ymwybodol eu bod yn rhan o gymuned fyd eang a bod ganddynt gyfrifoldeb tuag at eu cyd-ddyn.

### Diffygion

192 Nid oes diffygion pwysig.